GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Rhif Cyfeirnod:** AW16 – TP01 **Rhif Fersiwn:** 2 **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:**31/12/2026

GWEITHDREFN RHYDDHAU GWYBODAETH

Cyflwyniad a Nod

Bydd y weithdrefn hon yn galluogi staff i asesu unrhyw gais am wybodaeth a geir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a phenderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol. Mae hefyd yn rhoi rhywfaint o gyfarwyddyd ynghylch diogelu gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau.

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Polisi Llywodraethu Gwybodaeth
Gweithdrefn Ceisiadau Mynediad at Ddata gan y Testun

Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i ryddhau gwybodaeth, a hynny'n rhagweithiol ac mewn ymateb i geisiadau gan aelodau'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Nid yw'r weithdrefn hon yn ymdrin â rhyddhau data personol o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, sy'n destun gweithdrefn arall. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl gyflogeion Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Mae'r weithdrefn hon yn amodol ar yr AEGI a gwblhawyd ar gyfer y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Polisi EHIA Llywodraethu Gwybodaeth
Cymeradwywyd gan	Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad Cymeradwyo	08/12/2022
Dyddiad Adolygu	31/12/2026
Dyddiad Cyhoeddi:	11/01/2023
Cyfarwyddwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol	Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.
Awdur	Lisa Partridge Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych chi'n ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Tim Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau				
Rhif fersiwn	**Dyddiad Adolygu**	**Dyddiad Cymeradwyo**	**Dyddiad cyhoeddi**	**Crynodeb o'r Gwelliannau**
1	22 Ionawr 2020	22 Ionawr 2020	17 Mai 2018	Dogfen newydd
2	27 Medi 2022	8 Rhagfyr 2022		Ailysgrifennu helaeth

1 Cyflwyniad

Un o gonglfeini unrhyw gymdeithas ddemocrataidd yw'r egwyddor y dylai pobl allu cael gafael ar wybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am y ffordd y mae'r wlad a'i gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn cael eu rhedeg.

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer rhyddhau gwybodaeth yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) 2000. Mae'n gamsyniad cyffredin, wrth ofyn am wybodaeth, fod yn rhaid i'r sawl sy'n gofyn amdani ddatgan yn glir fod ei gais yn cael ei wneud o dan y DRhG er mwyn i'r gyfraith fod yn berthnasol. Mewn gwirionedd, rhaid ymdrin â phob un cais *ysgrifenedig* am unrhyw wybodaeth o gwbl yn unol â gofynion y DRhG. Mae hyn yn cynnwys popeth o e-bost yn holi faint o'r gloch mae desg ein derbynfa'n agor yn Capital Quarter, i gais ysgrifenedig ffurfiol am gofnodion un o gyfarfodydd y Tim Gweithredol.

Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod angen ymateb ffurfiol ar gyfer pob cais, ond mae'n golygu, os oes gennym yr wybodaeth y gofynnir amdani, fod yn rhaid i ni ei darparu a bod rhaid i ni wneud hynny o fewn yr amserlenni a osodwyd.

Y dull cyffredinol wedyn yw bod rhaid ymateb i bob cais am wybodaeth yn gadarnhaol a'r sefyllfa ddiofyn yw y byddwn yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, os yw gennym, ar gais oni bai bod rheswm da dros beidio.

Mae'r weithdrefn hon yn esbonio'r dulliau o ryddhau gwybodaeth, y dulliau diogelu y mae angen eu cymhwyso a'r weithdrefn ar gyfer atal gwybodaeth lle bo hynny'n briodol.

2 Fframwaith deddfwriaethol

Ceir fframwaith cyfreithiol cymhleth yn ymwneud â hawl person i gyrchu gwybodaeth a gedwir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus
- Y Ddeddf Hawliau Dynol
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2016

- Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015

Mae'n hanfodol ymgynghori â'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth cyn gynted ag y ceir unrhyw gais fel y gellir darparu'r cyngor arbenigol priodol, a all arbed cryn amser ac ymdrech.

Serch hynny, daw bron pob cais am wybodaeth o dan y DRhG ac felly er cysondeb defnyddir y term DRhG drwy'r ddogfen hon i gyd, a dylid dehongli ei fod yn cyfeirio at unrhyw gais y mae'r ymateb iddo'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth.

3 Rolau a chyfrifoldebau

Bydd pob aelod o staff yn:

- Cael unrhyw geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth gan y cyhoedd a'u cyfeirio at eu rheolwr neu reolwr busnes

Bydd Rheolwyr a Rheolwyr Busnes yn:

- Ymateb yn brydlon ac yn unol â'r weithdrefn hon i unrhyw geisiadau am wybodaeth
- Asesu unrhyw gais i benderfynu a ellir ymdrin ag ef yn lleol ai peidio
- Pan fo angen, cyfeirio'r cais at y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth
- Gwirio data personol am anhysbysrwydd addas cyn rhyddhau neu gyhoeddi

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn:

- Cynnal Gweithdrefn ar gyfer rhyddhau gwybodaeth
- Cynnal y Prawf Buddiant Cyhoeddus yn ôl y galw
- Cymeradwyo rhyddhau gwybodaeth yn derfynol

Bydd y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn:

- Hysbysu'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyfathrebu am bob cais a gafwyd y bydd gofyn ymateb sefydliadol ffurfiol iddo
- Asesu'r holl geisiadau a gyflwynwyd a phenderfynu pa ddeddfwriaeth fydd yn berthnasol
- Rhoi cyngor a chanllawiau i reolwyr
- Sicrhau bod staff perthnasol yn cael eu hysbysu
- Cyngor ar ddefnyddio eithriadau

- Coladu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani
- Darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn fformat safonedig
- Cyhoeddi pob cais ac ateb ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pennaeth Cyfathrebu cyn rhyddhau gwybodaeth o dan naill ai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Bydd y Pennaeth Cyfathrebu yn:

- Codi unrhyw broblemau gyda'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth ar yr olwg gyntaf ar y cais
- Briffio'r Prif Weithredwr fel y bo'n briodol
- Cymeradwyo'r ymateb terfynol o safbwynt cyfathrebu i'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth

Bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau'r Tîm Gweithredol yn:

- Cymeradwyo rhyddhau neu ddefnyddio eithriadau perthnasol ar gyfer gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Gyfarwyddiaeth y maent yn gyfrifol amdani.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn:

- Gweithredu fel 'Person Cymwys' Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion Adran 36 o'r DRhG, a rhoi barn resymol os cynigir eithriad o dan Adran 36 o'r Ddeddf.

4 Gweithdrefn

4.1 Cael cais

Er mwyn i gais gael ei ystyried yn un sy'n perthyn i'r DRhG, mae'n bwysig nodi bod rhaid iddo fod yn ysgrifenedig[1]. Wedi dweud hynny, ystyriwyd bod 'yn ysgrifenedig' yn cynnwys llythyrau ac e-byst ond hefyd trydaron, negeseuon testun a negeseuon ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Rhaid i geisiadau hefyd roi enw a chyfeiriad ar gyfer yr ymateb (a all fod yn gyfeiriad e-bost, neu ar wefan fel 'whatdotheyknow.com').

[1] Gellir gwneud rhai ceisiadau, yn arbennig am Wybodaeth Amgylcheddol, ar lafar. Os oes amheuaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth am gyngor.

Mae'n bwysig nodi bod ceisiadau'n cael eu gwneud yn ddigon cyfreithlon yn aml gan berson neu sefydliad sy'n defnyddio ffugenw. Dywedir bod ceisiadau a wneir o dan y DRhG yn 'ddall i geisydd a chymhelliad', gan olygu nad yw'n cael ei ganiatáu o dan y DRhG i gwestiynu'r ymatebwr ynglŷn â phwy ydyw neu pam mae arno eisiau'r wybodaeth. Yna mae'n hanfodol bod pob cais yn cael ei drin yr un fath ni waeth a dybir ei fod wedi dod gan fyfyriwr sy'n ymchwilio, gweinidog yn y llywodraeth, newyddiadurwr neu sefydliad arall.

Daw'r rhan fwyaf o geisiadau syml drwy e-bost ac fel arfer gellir delio â'r rhai a geir o fewn Cyfarwyddiaeth drwy ateb syml.

Serch hynny, ar adegau, bydd **rhaid** cyfeirio ceisiadau at y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth fel y gellir darparu ymateb sefydliadol ffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Unrhyw geisiadau sy'n cyfeirio'n benodol neu'n ymhlyg at hawliau o dan y DRhG;

- Byddai delio â'r cais yn golygu bod angen lefelau eithriadol o waith y tu hwnt i allu adrannol;

- Unrhyw gais lle ystyrir gwrthod rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

4.2 Gwybodaeth 'a gedwir' gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gwybodaeth sydd yn ein meddiant naill ai'n ffisegol neu'n electronig yn cael ei 'chadw' gennym ni. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad ein gwybodaeth 'ni' yw hi (e.e. cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru). Os ydym yn cadw'r wybodaeth, ni sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio.

Mewn amgylchiadau fel uchod, lle mae sefydliadau neu bobl eraill ynghlwm wrth yr wybodaeth, mae dyletswydd arnom i ymgynghori â nhw cyn ei rhyddhau a gallant gyflwyno sylwadau os nad ydynt am i ni ei rhyddhau. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol ar ryddhau neu beidio bob amser yn aros gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Sylwer mai'r ddyletswydd yw rhyddhau gwybodaeth sy'n cael ei chadw, ond nid oes gofyn cynhyrchu gwybodaeth newydd. Er enghraifft, efallai y gofynnir i ni am ddadansoddiad nad ydym wedi ystyried ei wneud eto. Efallai mai ni sy'n cadw'r data crai, ond nid

oes gofyn inni o dan y Ddeddf i greu gwybodaeth newydd trwy gynnal dadansoddiad ohoni.

4.3 Mathau o wybodaeth sy'n dod o dan y Ddeddf

Mae bron yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y sefydliad yn perthyn i gwmpas y DRhG. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft;

- Adroddiadau, papurau, cofnodion a nodiadau cyfarfodydd, gan gynnwys drafftiau, boed wedi'u cadw'n electronig neu mewn copi caled;
- Recordiadau a thrawsgrifiadau o gyfarfodydd;
- Negeseuon e-bost;
- Hysbysiadau, negeseuon a negeseuon testun ar offer sefydliadol neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sefydliadol fel Teams, Facebook, Twitter a Whats App.

Un pwynt pwysig i'w nodi yw nad oes eithriad ar gael ar gyfer gwybodaeth y credwn y gallai fod yn annifyr neu'n amharchus i'r sefydliad neu'r staff oherwydd ei bod yn anghywir neu'n llawn gwallau teipio. Un enghraifft dda a glywir yn aml yw lle mae cyfarfod yn cael ei recordio ar Services, ac un o'r cyfranwyr yn dweud rhywbeth fel *'Nid ar gyfer y cofnodion, ond...'* Mewn achos felly, os yw'r recordiad neu'r trawsgrifiad yn bodoli ac os gofynnir amdano, gellir ei ddatgelu o dan y DRhG oni bai bod eithriad priodol i'w ddefnyddio.

Mae unrhyw wybodaeth a'r holl wybodaeth sydd gennym yn dod o dan y Ddeddf ac mae'n rhaid ei hystyried i'w rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddrafftiau o ddogfennau sydd wedi eu creu ac sy'n dal i gael eu cadw yn ein systemau.

4.4 Gwybodaeth am Ddod â'ch Dyfeisiau eich Hun (BYOD)

Yn gynyddol, mae staff yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain, yn enwedig ffonau clyfar at ddibenion gwaith. Er bod dyfeisiau personol yn eiddo i chi, rhaid cofio bob amser, os ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â'r gwaith, efallai y bydd achlysuron pan fydd yr wybodaeth sydd wedi ei storio arni yn perthyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac felly efallai y gellir ei datgelu o dan ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn berthnasol eto i ddeunydd fel cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n eiddo i'r sefydliad neu a reolir ganddo, ac i e-byst a negeseuon testun.

4.5 Ymateb i gais am wybodaeth

Pan geir cais yn lleol ac nid oes angen ymateb ffurfiol arno, nid oes ymateb sefydliadol safonol a gellir delio â'r mater yn ôl protocolau cyfathrebu lleol / y Gyfarwyddiaeth.

Pan fydd angen ymateb sefydliadol ffurfiol, rhaid i hwn fod ar lythyr templed y sefydliad a bydd y tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am gwblhau'r ymateb, gan ofyn am unrhyw gymeradwyaeth ofynnol i ryddhau'r wybodaeth, a'i anfon at y ceisydd.

Ym mhob achos, rhaid darparu ymateb y sefydliad o fewn 20 diwrnod gwaith i gael y cais.

4.6 Ymateb i gais gan y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth

Pan ddaw cais i mewn y mae gofyn ymateb ffurfiol iddo, bydd y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn cysylltu â'r adran sy'n gyfrifol ac yn gofyn am yr wybodaeth i'w datgelu. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion cyfreithiol, bydd yr adran yn ymateb o fewn 15 diwrnod a naill ai'n:

- Darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani a chadarnhau ei bod yn addas i'w rhyddhau;

- Cadarnhau nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei chadw, neu

Os yw'r adran sy'n gyfrifol yn teimlo na ddylid rhyddhau'r wybodaeth, mae'n rhaid i'r ymateb fod o fewn 10 diwrnod a:

- Cadarnhau bod yr wybodaeth yn cael ei chadw, ond egluro pam na ellir ei rhyddhau.

Yna bydd y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn asesu'r ymateb, yn cysylltu â'r ymatebwr os oes gofyn atal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac yn trefnu bod unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol yn cael ei chwblhau.

4.7 Gwrthod cais am wybodaeth

Bydd gwrthod cais am wybodaeth yn eithriad yn hytrach na'r rheol. Er bod y DRhG yn bwriadu sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bobl lle bynnag y bo modd, roedd y deddfwyr hefyd yn cydnabod y byddai achlysuron lle na fyddai hyn yn bosibl neu'n ddymunol. O ganlyniad

darperir nifer o eithriadau, a gall y sefydliad eu defnyddio os bydd yn teimlo nad yw'n briodol rhyddhau gwybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, gellir gwrthod gwybodaeth pe byddai'r gost o gydymffurfio â'r cais yn rhy ddrud ac nid oes rhaid i ni ymateb i geisiadau a all gael eu dosbarthu'n rhai 'blinderus'.

Mae pwnc eithriadau yn un cymhleth ac mae nifer fawr o eithriadau ar gael, a rhai ohonynt yn gofyn am 'brawf buddiant cyhoeddus' ac un sy'n gofyn am gymeradwyaeth benodol y Prif Weithredwr. Os byddwch yn ystyried gwrthod rhyddhau gwybodaeth, bydd cyngor arbenigol yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth.

4.8 Rhyddhau neu gyhoeddi data personol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aml yn cyhoeddi ac yn rhyddhau data personol yn ymwneud ag unigolion o dan y DRhG a deddfwriaeth eraill, ar yr amod ei fod yn cael ei drin mewn modd sy'n ei gwneud yn amhosibl adnabod testunau'r data.

Mae tair ffordd yr ydym yn cyflawni hyn yn gyffredinol.

- Gwybodaeth ddienw
- Golygon dienw ar wybodaeth
- Gwybodaeth gyda ffugenw

Er mwyn i wybodaeth neu ddata fod yn wirioneddol ddienw, rhaid bod y broses o ddileu'r enw yn *ddi-droi'n-ôl*. Golyga hynny fod yn rhaid i ni fel y rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth, ei gwneud yn ddienw i'r graddau ei bod yn amhosibl (hyd yn oed i ni) ei hail-greu a chysylltu'r data â'r unigolion.

Pan fydd gwybodaeth yn wirioneddol ddienw, yna nid yw cyfraith diogelu data yn berthnasol mwyach ac nid oes cyfyngiad ar ei chyhoeddi na'i rhyddhau.

Yn ymarferol mae'n anodd iawn gwneud gwybodaeth yn anhysbys i'r graddau hyn ac felly mewn gwirionedd yr hyn a wnawn fel arfer yw darparu *golygon dienw ar* wybodaeth. Un enghraifft nodweddiadol o hyn yw taenlen sy'n cynnwys data personol, lle byddwn yn dileu'r golofn sy'n cynnwys y dynodwyr (yr enw neu'r cyfeiriad e-bost fel arfer) er mwyn ei ryddhau. Nid yw hyn yn gwbl anhysbys oherwydd mae Iechyd Cyhoeddus Cymru sef y rheolydd data yn dal i fod â'r holl wybodaeth adnabod.

Y dewis arall yw darparu gwybodaeth gyda ffugenw. Gwneir hyn trwy osod ffugenw yn lle'r dynodwr arferol (enw neu rif GIG er enghraifft), sy'n cael ei gadw wedyn ar wahân i'r set ddata. Fodd bynnag, mae gwybodaeth ffugenw yn dal i gael ei hystyried yn ddata personol at ddibenion cyfraith diogelu data ac mae'n rhaid ei thrin felly.

Rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu rhyddhau data personol yn unrhyw un o'r achosion hyn gael y data i'w ryddhau wedi'i wirio gan ei reolwr cyn ei ryddhau. Gwneir hyn er mwyn gwirio'r eildro neu 'gyda llygaid newydd' i sicrhau bod yr wybodaeth wedi'i thrin yn addas ac nad oes data personol adnabyddadwy yn parhau.

4.9 Cwynion gan geiswyr

Pan na fydd ceisydd yn fodlon ar yr ymateb gan y sefydliad, mae ganddo'r hawl i gwyno a gofyn am Adolygiad Mewnol o'r penderfyniad mewn perthynas â'r cais. Bydd pob cais o'r fath yn cael ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig (CCLlI), a fydd yn adolygu'r cais a'r ymateb a roddwyd. Os caiff y gŵyn ei chadarnhau bydd y CCLlI yn cyfarwyddo y dylid rhyddhau'r wybodaeth yn ddi-oed. Os na chaiff y gŵyn ei chadarnhau, yna bydd y CCLlI yn ysgrifennu at y ceisydd i roi gwybod iddo.

5 Gofynion hyfforddi

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn sicrhau y darperir hyfforddiant i staff ar y Weithdrefn yn unol â'r Gweithdrefnau Rheoli Dogfennau.

6 Monitro cydymffurfiaeth

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn monitro'r weithdrefn hon i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau ei bod wedi'i gweithredu'n effeithiol.

7 Cyhoeddi

Mae ymatebion dienw i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol yn cael eu cyhoeddi ar ryngrwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r Cynllun Cyhoeddi.

8 Rhagor o wybodaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi cyngor manwl ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliad Gwybodaeth

Amgylcheddol a Mynediad at Ddata gan y Testun. Gall unrhyw un sydd am gael gwybodaeth fanylach ymgynghori â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddilyn y dolenni isod.

Am geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol:

https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/

Atodiad A – siart llif cais y DRhG


Information Governance Team
Directorate / Division / Team
Cais dilys wedi'i gael gan Wasanaeth LlG
No
Relevant to PHW?
Yes
Notify CEO and Comms
Pass request to relevant person / team
Source the information requested
Yes
Appropriate for release?
No
Contact IG Team for advice
Compile formal response
Ymateb i'r Gwasanaeth LlG o fewn 15 diwrnod (10 diwrnod os nad yw'n
Approval to release
Full release?
No
Relevant Exec. Director
Yes
Head of IG & Head of Comms
Release